NEWYDDION TEULU A CHYHOEDDIADAU

Y SULIAU NESAF

Ionawr 4:
Oedfa Aelodau Ardal Pentyrch
Taflen a Sgrin: Emlyn Davies

Ionawr 11:
Y Parchg. Aled Edwards
Llywydd: Bethan Roberts
Taflen: Ros Evans; Sgrin: Mal Pate

Ionawr 18:
Huw M. Roberts
Llywydd: Iwan Rowlands
Taflen a Sgrin: Geraint Rees

Ionawr 25:
Oedfa Deuluol Santes Dwynwen
Llywydd: Heulyn Rees
Taflen a Sgrin: Heulyn Rees

DILLAD PLANT

Mae angen dybryd yn y Gwasnaethau Cymdeithasol am ddillad plant o bob oed, o fabis i blant yn eu harddegau. Mae croeso i chi adael dillad addas, mewn bagiau duon, yn llofft y capel, a bydd y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn sicrhau eu bod yn cyrraedd y lle iawn.

CYLCH CADWGAN

Nos Fawrth Ionawr 27ain
LYNN DAVIES
'Llên Gwerin y Glowr'
8.00 p.m. Clwb Rygbi Pentyrch
Cydnabyddir cefnogaeth
Llenyddiaeth Cymru

RHESTR FLODAU

Mae rhestr 2015 ar gael yn y cyntedd. Croeso i chi ddewis Sul.

DYMUNIADAU DA

Dymunwn adferiad buan i Ken Jones, Pentyrch, sydd newydd dreulio ychydig ddyddiau yn yr ysbyty. Brysia wella!

LLYFRAU ARIANNOL

Cofiwch y bydd y llyfrau ariannol yn cau ar Ragfyr 31ain. Os nad ydych wedi cwblhau eich cyfraniadau, gwnewch hynny erbyn y Sul nesaf. Gwnewch ymdrech arbennig hefyd i gyfrannu tuag at yr elusennau drwy'r amlenni brown. Rhowch yn hael os gwelwch yn dda.

BWRDD Y CYFARWYDDWYR
Nos Fawrth 7fed Ionawr 7:30 p.m.

MERCHED Y TABERNACL
Cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd
Ionawr 20fed am 1:00 o'r gloch,
yn Neuadd Dewi Sant
Cyngerdd awr ginio:
triawd, fiolin, cello, piano
Cwrdd yno tua 12:00 i orffen
ein rhaglen dros ginio

DIOLCH I BAWB

Diolch i'r dwsinau o aelodau a fu'n gweithio'n ddiwyd drwy'r flwyddyn i sicrhau llwyddiant yr achos yn y Tabernacl - yn gyhoeddus, yn y cefndir, yn yr Ysgol Sul, yn y pwyllgorau, yn yr oedfaon ac yn y gymuned.

CLWB Y DWRLYN

CANU PLYGAIN
7.00 p.m. Nos Iau
Ionawr 8fed

PRIODASAU UN RHYW

Cofiwch am y cyfarfod i'r holl aelodau am 4:00p.m. ddydd Sul, Ionawr 11eg, i drafod Priodasau Cyfunrywiol.